# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL DYDD IAU, 20 RHAGFYR 2018

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Elfed Williams (Cadeirydd), Y Cynghorwyr Steve Collings a Dafydd Owen

**Swyddogion:** Geraint B Edwards (Cyfreithiwr), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu), Owain Williams (Swyddog Gorfodaeth), Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau) ac Alun M Roberts (Swyddog Gorfodaeth Gwarchod y Cyhoedd) – Arsylwi

## 1. YMDDIHEURIADAU

Dim i'w nodi

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi

## 4. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraffau 12 ac 13, Rhan 4, Atodiad 12 A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraffau yma yn berthnasol oherwydd bod gan yr unigolion dan sylw'r hawl i breifatrwydd ac nad oes unrhyw fudd cyhoeddus sy'n gofyn am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion nac yn gofyn am eu hadnabod. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus o gadw'r wybodaeth yn eithriedig yn gorbwyso'r budd cyhoeddus o'i datgelu.**

## 5. CAIS AM DRWYDDED HACNI/HURIO PREIFAT

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Amlygodd y byddai'r penderfyniad yn cael ei wneud yn unol â pholisi trwyddedu Cyngor Gwynedd. Nodwyd mai pwrpas y polisi oedd gosod canllawiau ar y meini prawf wrth ystyried cais yr ymgeisydd gyda'r nôd o ddiogelu'r cyhoedd drwy sicrhau:

- Bod yr unigolyn yn unigolyn addas a phriodol
- Nad yw'r unigolyn yn fygythiad i'r cyhoedd
- Bod y cyhoedd wedi'u diogelu rhag pobl anonest
- Bod plant a phobl ifanc wedi'u diogelu
- Bod pobl ddiamddiffyn wedi'u diogelu
- Bod y cyhoedd yn gallu bod yn hyderus wrth ddefnyddio cerbydau

trwyddedig.

Amlygodd y Cyfreithiwr yr angen am eglurder dros yr hyn oedd i'w benderfynu.

a) Mai cais am drwydded gyrru cerbyd hacni/hurio preifat oedd gerbron yr Is bwyllgor. Nid oedd cais gerbron am drwydded gweithredu ac felly ni fyddai penderfyniad yr Is bwyllgor yn rhagdybio effaith ar drwyddedau eraill. Byddai hynny i'w drafod mewn is bwyllgor arall.

b) Nad diddymiad oedd canlyniad y gwrandawiad. Nodwyd bod diddymiad yn awgrymu trwydded gyrrwr sydd mewn grym. Nid yw'r drefn adnewyddu yn gweithredu fel adolygiad o drwydded gyfredol ond fel cais am drwydded gyrrwr newydd i fod yn weithredol o ddyddiad terfynol y drwydded gyfredol. Yr unig ganlyniad posib o'r gwrandawiad fyddai caniatáu neu wrthod.

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu adroddiad ysgrifenedig ar gais a dderbyniwyd gan Mr A am drwydded gyrru cerbyd hacni/hurio preifat. Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried y cais yn unol â'r cofnod DBS, y canllawiau ar droseddau a chollfarnau perthnasol.

Gwahoddwyd cynrychiolydd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais a rhoi gwybodaeth am gefndir y troseddau ac amgylchiadau personol yr ymgeisydd. Nodwyd ei fod wedi bod yn rhedeg y busnes ers dros 20 mlynedd a bod llythyrau geirda wedi eu cyflwyno yn nodi ei fod yn gyflogwr da ac yn uchel ei barch o fewn y gymuned leol.

Mewn ymateb i sylw ynglŷn ag annilysrwydd yswiriant y car a archwiliwyd nododd cynrychiolydd yr ymgeisydd bod y cerbyd gydag yswiriant llawn, nad oedd unrhyw risg i'r cyhoedd, bod y car yn ddiogel ac nad oedd yr ymgeisydd wedi ei ganfod yn euog. Dadleuodd y Swyddog Gorfodaeth bod yswiriant cynhwysfawr ar gyfer y cerbyd yn annilys ar amser yr archwiliad a chyflwynwyd dyfyniad o'r polisi yswiriant perthnasol gyda'r cofnod DBS.

Ymneilltuodd yr ymgeisydd a'i gynrychiolydd o'r ystafell tra bu i aelodau'r Is-bwyllgor drafod y cais.

**PENDERFYNWYD nad oedd yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol ar gyfer trwydded gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat gyda Chyngor Gwynedd.**

Wrth gyrraedd eu penderfyniad, roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y canlynol:

- Gofynion 'Polisi Trwyddedu ar gyfer Hurio Preifat a Cherbydau Hacni Cyngor Gwynedd'
- ffurflen gais yr ymgeisydd
- sylwadau llafar, a gyflwynodd yr ymgeisydd a'i gynrychiolydd yn ystod y gwrandawiad
- llythyrau geirda
- adroddiad yr Adran Drwyddedu ynghyd a'r datganiad DBS oedd yn datgelu collfarnau.

Rhoddwyd ystyriaeth benodol i'r materion canlynol.

Derbyniodd yr ymgeisydd rybudd ffurfiol am ymddygiad afreolus neu ddefnyddio geiriau bygythiol, ymosodol neu sarhaus sydd yn debygol o achosi aflonyddwch, braw neu drallod gan Heddlu Gogledd Cymru (Chwefror 2014) yn groes i'r

Ddeddf Trefn Gyhoeddus 1986. Ar ddau achlysur, (2014 a 2015) cyflwynodd yr ymgeisydd ffurflenni adnewyddu trwydded gyrrwr lle methodd ddatgan ar ei ffurflen gais rybudd 2014 oedd yn groes i amod trwyddedu paragraff 6 o bolisi trwyddedu'r Cyngor.

Ym mis Ionawr 2018 cafodd yr ymgeisydd ei ddyfarnu yn euog gan Lys Ynadon Caernarfon i un cyhuddiad o ganiatáu i gerbyd gael ei ddefnyddio fel cerbyd hurio preifat heb drwydded gyfredol sydd yn groes i adran 46 (2) o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976. Cafodd ddirwyo o £450.00, gorchymyn i dalu costau o £200 a gordal i'r dioddefwr o £45. O ganlyniad i'r cyhuddiad bu i'r ymgeisydd dderbyn rhybudd o ddiddymiad trwydded gyrrwr gan yr Awdurdod Trwyddedu (Chwefror 2018) yn unol â darpariaeth adran 61 Deddf Llywodraeth Lleol (Darpariaethau Amrywiol) 1976. Cafodd y diddymiad ei wneud gan swyddog o dan drefniadau hawliau dirprwyedig ac nid gan Is Bwyllgor. Fe gyflwynodd yr ymgeisydd apêl i Lys Ynadon am y diddymiad a daethpwyd i drefniant mewn gwrandawiad (Mehefin 2018) bod yr ymgeisydd i dynnu'r apêl yn ôl, y byddai'r Cyngor (Adran Trwyddedu) yn tynnu'r diddymiad yn ôl, a bod addasrwydd yr ymgeisydd fel 'person addas a phriodol' yn cael ei benderfynu mewn gwrandawiad gerbron Is Bwyllgor.

Amlygwyd nad oedd yr ymgeisydd wedi datgelu rhybudd 2014 a throsedd 2018 yn ei gais i adnewyddu ei drwydded.

Ym mis Hydref 2018, wrth gyflwyno ffurflen gais am drwydded yn Siop Gwynedd, Caernarfon, bu i'r ymgeisydd ymddwyn mewn modd annerbyniol drwy ymateb yn eiriol mewn modd personol ac ymosodol gyda Swyddog Trwyddedu. Yn yr un modd, mewn galwad ffôn gyda Rheolwr Llinell yr aelod staff cyhuddodd yr ymgeisydd yr aelod staff o ddweud celwydd. Ar y diwrnod canlynol, anfonwyd llythyr gan y Rheolwr Llinell at yr ymgeisydd yn amlinellu'r digwyddiad ac yn rhoi rhybudd iddo na fyddai unrhyw swyddog o'r Cyngor yn goddef ymddygiad o'r fath.

Ystyriwyd paragraff 2.2 o Bolisi'r Cyngor lle nodi'r nad oes rheidrwydd i berson sydd â chollfarn am drosedd ddifrifol gael ei wahardd rhag cael trwydded, ond bydd disgwyl iddo fod yn rhydd rhag unrhyw gollfarnau am gyfnod priodol fel y nodir yn y Polisi, a dangos tystiolaeth ei fod yn unigolyn addas a phriodol i ddal trwydded. Mae cyfrifoldeb ar yr ymgeisydd i brofi ei fod yn berson addas a phriodol. Mae paragraff 2.3 yn nodi bod y term 'materion arall i'w hystyried' yn cynnwys rhybudd neu faterion eraill sydd yn berthnasol i 'addasrwydd a phriodolrwydd'.

Ystyriwyd paragraff 4.5 sydd yn nodi bod y Gorchymyn Deddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) (Diwygio) 2002 yn caniatáu'r Is-bwyllgor ystyried pob collfarn, p'run ai ydynt wedi eu treulio o dan Ddeddf 1974 neu beidio.

Mae paragraff 6 o'r Polisi yn cyfarch troseddau o drais ac fe nodir ym mharagraff 6.1 gan fod gyrwyr trwyddedig yn dod i gysylltiad agos ar cyhoedd yn rheolaidd y byddai is-bwyllgor yn mabwysiadu safbwynt cadarn at y rhai hynny sydd â throseddau yn ymwneud a thrais. Mae paragraff 6.5 o'r Polisi yn nodi y bydd cais am drwydded fel rheol yn cael ei wrthod os oes gan yr ymgeisydd fater i'w ystyried am ymosodiad cyffredin sydd yn llai na 3 blynedd cyn dyddiad y cais. Mae'r paragraff, yn rhestru ymhlith materion eraill, troseddau sydd yn ymwneud ag ymosodiad cyffredin a rhwystro. Mae paragraff 6.6 yn nodi y bydd cais yn cael ei wrthod os oes mwy nag un gollfarn am drosedd o natur dreisgar yn erbyn yr ymgeisydd o fewn y 10 mlynedd diwethaf.

Mae paragraff 16.1 o bolisi'r Cyngor yn ymwneud ag ail-droseddu. Rhaid yn gyntaf sicrhau bod y collfarnau'n bodloni canllawiau'r polisi yn unigol, ond gyda'i gilydd yn creu hanes o ail-droseddu sydd yn dangos diffyg parchat les eraill ac eiddo. O dan y Polisi rhaid bod 10 mlynedd wedi mynd heibio ers y gollfarn fwyaf diweddar

Mae paragraff 17 o'r Polisi yn ymwneud a materion torri deddfau, is-ddeddfau ac amodau trwydded. Nodi'r yn 17.1 y byddai'n annhebygol rhoi trwydded i ymgeisydd os oes ganddo gollfarn am drosedd yn ymwneud a'r materion uchod oni bai bod cyfnod o 12 mis wedi mynd heibio ers y gollfarn ddiweddaraf.

Daeth yr Is-bwyllgor i'r casgliad bod y rhybudd a roddwyd yn 2014 yn ymwneud a thrais ac felly i'w ystyried o dan baragraff 6.5 o'r polisi. Er hynny, gyda'r gollfarn yn un hanesyddol (tu hwnt i ofynion y polisi o 3 blynedd) nid oedd yn sail i wrthod y cais. Er bod yr Is Bwyllgor wedi dod i'r farn nad oedd y gollfarn ar ei rinwedd ei hun yn ddigon i wrthod y cais,cydnabuwyd y byddai'r gollfarn, gyda chyfuniad o gollfarnau tebyg, yn gallu bod yn sail i wrthod o ystyried paragraffau 6.6 ac 16.1.

Nododd yr Is Bwyllgor bod methiant yr ymgeisydd yn 2014, 2015 a 2018 i ddatgelu rhybudd 2014 wrth adnewyddu ei drwydded yn torri amod trwydded. Gyda'r gollfarn olaf wedi digwydd tri mis yn ôl, rhagdybiwyd yr angen i ystyried paragraff 17.1. Tynnwyd sylw'r Is bwyllgor at y ffaith nad oedd collfarn 2018 wedi ei restru ar y datganiad DBS oherwydd nad oedd yn cael ei gydnabod fel trosedd gan Rheoliadau Cofnodion Cenedlaethol yr Heddlu (Troseddau Cofnodadwy) 2000 Er hynny amlygodd y Cyfreithiwr, er nad oedd cofnod o'r drosedd, roedd yn dal yn berthnasol i'r gwrandawiad.

Wrth ystyried digwyddiad Hydref 2018 fel ag yr amlinellwyd gan y Rheolwr Trwyddedu, daeth yr Is Bwyllgor i'r penderfyniad, gan nad oedd yr ymgeisydd wedi cymryd unrhyw gamau i ddadleu yn erbyn y cyhuddiadau bod yr ymddygiad yn un treisgar. Ystyriwyd rhybudd 2014 a digwyddiad Hydref 2018 fel rhai o natur dreisgar, ac wedi digwydd o fewn y 10 mlynedd diwethaf. O ganlyniad, roedd paragraff 6.6 o'r polisi yn cael ei ystyried. Yn ychwanegol, roedd rhybudd 2014, collfarn 2018 a digwyddiad Hydref 2018 yn gyfres o ail droseddu o fewn 10 mlynedd, yn dangos diffyg parch at les eraill ac eiddo. Eto, roedd hyn yn arwain at benderfyniad yr Is bwyllgor i ystyried paragraff 16.1.

Amlygodd y Cyfreithiwr, er bod rhesymau clir dros wrthod y cais, nad yw darpariaethau'r Polisi yn orfodol a bod modd gwyro oddi ar yr argymhellion os yw ffeithiau'r achos yn cyfiawnhau hynny.

Nodwyd bod 'addas a phriodol', ymysg materion eraill, yn gofyn am asesiad cymhwysedd busnes yr ymgeisydd, fyddai'n cynnwys edrych ar y gofal sydd yn cael ei roi wrth gyflwyno gwaith papur i adnewyddu trwydded. Methodd yr ymgeisydd i nodi'r rhybudd 2014 dair gwaith sydd yn awgrymu agwedd anhrefnus a ffwrdd a hi tuag at waith papur ac ymgais i guddio gwybodaeth berthnasol.

Nodwyd bod 'addas a phriodol' hefyd yn rhoi ystyriaeth os yw ymgeisydd yn gallu ymddwyn mewn modd sydd ddim yn fygythiol o dan amgylchiadau heriol. Dylai ymgeisydd fod ar gallu i ymddwyn mewn modd digynnwrf a thawel mewn anghydfod neu bydd amheuaeth yn y modd y mae'n ymdrin â chwsmeriaid. Petai'r ymgeisydd wedi ymddwyn mewn modd priodol Hydref

2018, byddai rhybudd 2014 yn fater unigol ac felly ni fyddai angen ystyried paragraff 6.6 (aildroseddu). Nododd yr Is Bwyllgor y dylai'r ymgeisydd, yn y dyfodol, wrth geisio am drwydded, drin swyddogion y Cyngor gyda pharch.

Wedi ystyried yr holl elfennau, nid oedd yr Is Bwyllgor wedi eu darbwyllo y dylid gwyro oddi ar y rhagdybiaeth o wrthod y cais. O ganlyniad, gwrthodwyd y cais.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy llythyr i'r ymgeisydd ac y byddai'r Uned Drwyddedu yn cysylltu i gadarnhau dogfennau'r drwydded.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.50 y.b. a daeth i ben am 12.10 y.h.

**CADEIRYDD**